Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 419

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Cyfraniad tuag at gost Sticeri Adlewyrchol ar gyfer cerbydau Amaethyddol**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae cymunedau gwledig yn ardal Dyfed-Powys wedi profi lefelau uchel o ladradau offer a cherbydau amaethyddol dros y 2 flynedd ddiwethaf – gan gostio dros £250,000. Gan weithio gydag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi llunio sticer adlewyrchol y gellir ei roi ar offer a cherbydau amaethyddol er mwyn atal lladrad.

Lluniwyd y sticeri hyn i roi sicrwydd i gymunedau gwledig y bydd eu cerbydau'n cael eu gweld os byddant yn cael eu defnyddio yn ystod amserau annisgwyl.

Bydd y sticeri hefyd yn atal troseddwyr drwy ddangos bod y cerbydau wedi'u marcio ac y byddant yn cael eu monitro gan awdurdodau pan fyddant yn cael eu defnyddio ar y rhwydwaith ffyrdd.

Mae'r sticeri hyn yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim i aelodau o gymunedau gwledig sy'n gallu dangos eu bod nhw'n berchen ar gerbydau a/neu offer amaethyddol a allai fod mewn perygl o gael eu dwyn.

Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i roi cyfraniad i Heddlu Dyfed-Powys tuag at gost y sticeri hyn.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cefnogi blaenoriaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o atal niwed.

**Argymhelliad:**
Rhoi £2,000 o Gronfa'r Comisiynydd i gefnogi prynu'r sticeri adlewyrchol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 21/10/25**